**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 11eg Medi, 2025 at 2.00 pm**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | Andrew Blackmore, (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sirol Tony Easson, (Is-Gadeirydd)<br><br>Aelodau Lleyg: S. Davies, C. Prosser, R. Guest,<br>Cynghorydd Sirol: John Crook, Malcolm Lane, Phil Murphy, Peter Strong and Ann Webb |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Peter Davies | Prif Swyddog, Adnoddau |
| Jan Furtek | Prif Archwilydd Mewnol Dros Dro |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jonathan Davies | Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog |
| Emma Tapper | Swyddog Llywodraethiant a Sicrwydd |
| Steve Wyndham | Audit Wales Officer |
| David Jarrett | Cyfrifydd |
| Nikki Wellington | Rheolwr Cyllid |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol Sara Burch and David Jones

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd datganiadau o fuddiant.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Nodi'r Rhestr Weithredu o'r cyfarfod diwethaf.**

Nodwyd y rhestr weithredu o'r cyfarfod blaenorol:

1. Twyll, Llygredd a Gwrth-Llwgrwobrwyo – Hyfforddiant Gorfodol: Rhoddodd y Prif Archwilydd Mewnol ddiweddariad interim. [AGORED]

   https://youtu.be/0ez2ZKT0uM0?si=QdpWuMSN-1Zxv653&t=77

4. **Adroddiad Cynnydd Chwarterol Archwilio Mewnol (Ch1)**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol Adroddiad Cynnydd Chwarterol Archwilio Mewnol (Ch1). Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

https://youtu.be/0ez2ZKT0uM0?si=8xf_tO_uinjZ3sCI&t=143

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad:

- Nododd y Pwyllgor y barnau archwilio a gyhoeddwyd ; a
- Nododd y Pwyllgor gynnydd yr Adran tuag at gyflawni Cynllun Archwilio Gweithredol 2025/26 a dangosyddion perfformiad yr Adran ar gam 3 mis y flwyddyn ariannol sydd o flaen y targed proffil ar hyn o bryd.

CAM GWEITHREDU 1. Wrth nodi y cafodd gwasanaeth My Mates farn Sicrwydd Cyfyngedig, gofynnodd y Pwyllgor i uwch swyddog perthnasol fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf i drafod sut oedd y sefyllfa hon wedi codi a beth gaiff ei wneud i fynd i'r afael â'r diffygion gyda golwg ar roi'r lefel ofynnol o sicrwydd fod materion yn cael eu trin.

CAM GWEITHREDU 2. Wrth gyfeirio at y safonau archwilio mewnol cyffredinol, gofynnodd Aelod am ddiweddariad am sut y caiff busnesau lleol canolig eu maint eu hannog i gynnig am gontractau caffael. Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn dilyn lan ar y cam gweithredu hwn ac yn trefnu ar gyfer ymateb.

5. **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2024/25**

Cyflwynodd y Cadeirydd ddrafft Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i roi sylwadau.

https://youtu.be/0ez2ZKT0uM0?si=QQjg9FvtvTw3f7pe&t=823

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad a gaiff yn awr ei ystyried gan y Cyngor Sir.

6. **Datganiad o Gyfrifon Drafft 2024/25 Cronfa Eglwysi Cymru/Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 Ddatganiad o Gyfrifon Drafft 2024/25 Cronfa Eglwysi Cymru/Ymddiriedolaeth Gwaddol Fferm Sir Fynwy. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau:

https://youtu.be/0ez2ZKT0uM0?si=mWvg-g7Ifw5UE7Ul&t=892

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu Datganiad Cyfrifon drafft 2024/25 ar gyfer y cyrff uchod a rhoi sylwadau a chynnig gwelliannau i'w hystyried wrth ochr y broses archwilio allanol a chyn eu cyhoeddi'n derfynol.

Gofynnwyd i Swyddog Archwilio Cymru roi diweddariad ar yr archwiliad o gyfrifon blynyddol y Cyngor.

https://youtu.be/0ez2ZKT0uM0?si=_hyZVqo9wfVehSYm&t=2018

Wrth gyfeirio at yr ymgynghoriad ar ffioedd, barn y Pwyllgor oedd y dylai swyddogion ymateb os dewisant wneud hynny. Os felly, gofynnwyd i'w hymateb gael ei gylchredeg i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

7. **Blaengynllun y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Nodwyd Blaengynllun y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

https://youtu.be/0ez2ZKT0uM0?si=v6Qj3KxM5sDgMbyP&t=2518

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 11eg Medi, 2025 at 2.00 pm**

8. **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu cymeradwyo fel bod yn gywir.

https://youtu.be/0ez2ZKT0uM0?si=n-vBNqfuiMhQiQmE&t=2531

9. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 30 Hydref 2025 am 2.00pm.**

**Gorffennodd y cyfarfod am 2.44 pm**